**Eitem: 12**

**Teitl: Fframwaith a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor wedi'u diweddaru**

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w gymeradwyo |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chymeradwyo sefydlu Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth newydd a'r cylch gorchwyl arfaethedig. |
| **Risg / Risk** | Os na fydd Llais yn adolygu ei fframwaith pwyllgorau a chylch gorchwyl ei bwyllgorau yn rheolaidd, bydd mewn perygl o weithredu heb y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer ei fframwaith llywodraethu. Bydd hyn yn peri risg i Llais weithredu neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol na'r trefniadau a ddirprwywyd gan y Bwrdd. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r papur hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/ Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme objective** | Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwr pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd o waith Llais ac felly, cyflawni pob amcan allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddull EAC Llais. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae cylch gorchwyl drafft y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi'i drafod a'i gymeradwyo gan aelodau'r pwyllgor yn y cyfarfod ar 19eg Mehefin 2024. Mae cylch gorchwyl Pwyllgor y Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor. Mae'r holl sylwadau ar y ddwy set o gylch gorchwyl wedi'u hystyried ac ymatebwyd iddynt naill ai drwy ddiwygio'r cylch gorchwyl neu drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r pwyllgor perthnasol.<br><br>Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth presennol gylch gorchwyl presennol, sydd wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd a byddant yn bodoli hyd nes y bydd y Bwrdd yn cymeradwyo unrhyw gylch gorchwyl newydd. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 16eg Gorffennaf 2024 |

## Cefndir / Background

Nododd y Bwrdd mewn sesiynau datblygu diweddar, fel rhan o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 a'r adolygiad effeithiolrwydd a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth 2024, fod angen addasiadau i fframwaith pwyllgorau'r sefydliad a'r cylch gorchwyl cyfatebol ar gyfer pob un o'i bwyllgorau.

Cytunodd y Bwrdd y byddai'n bwrw ymlaen â'r ddau bwyllgor presennol, ond y byddai cwmpas a rôl y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn cael eu hehangu i ystyried materion gweithlu ehangach a materion ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddai hyn yn lleihau rhaglen waith presennol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg mewn perthynas ag ystyried materion gweithlu ac yn ail-gydbwyso'r llwythi gwaith rhwng y ddau bwyllgor yn fwy priodol. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai'n ofynnol i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, ond ar hyn o bryd dim ond o leiaf unwaith y flwyddyn y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth gyfarfod.

Yn gynharach yn 2024, comisiynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Eversheds Sutherland i gynnal adolygiad llywodraethu annibynnol yn chwarter cyntaf 2024. Derbyniwyd allbynnau'r adolygiad hwn ddiwedd mis Mawrth 2024 ac roedd yn cynnwys rhai newidiadau a awgrymwyd i drefniadau'r pwyllgor.

Gofynnwyd hefyd i Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd gynnal adolygiad llywodraethu. Elfen allweddol o'r adolygiad fu defnyddio allbynnau'r adolygiad annibynnol ac arfer da presennol i ddiweddaru, lle bo angen, fframwaith llywodraethu'r sefydliad.

Elfen bwysig o'r gwaith adolygu hwnnw fu myfyrio ar y fframwaith pwyllgorau a diweddaru'r cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau'r Bwrdd.

Datblygwyd cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a chafodd y rhain eu hystyried a'u cymeradwyo gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19eg Mehefin 2024. Mae'r rhain ynghlwm wrth y papur hwn yn atodiad 1.

Datblygwyd cylch gorchwyl hefyd ar gyfer rôl ehangach y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth newydd. Mae'r rhain wedi'u hystyried yn y sefydliad a chan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth presennol ac fe'u cymeradwywyd i'w hystyried gan y Bwrdd. Mae'r cylch gorchwyl newydd hwn wedi'i atodi yn atodiad 2.

Amlinellir y prif feysydd newid ac ychwanegiadau isod.

## Manylion / Detail

Amlinellir y prif feysydd newid ac ychwanegiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg isod:

- Egluro sefyllfa'r pwyllgor ar fonitro sefyllfa ariannol y sefydliad a darparu cyngor i'r Bwrdd.
- Cadarnhau rôl y pwyllgor yn y fframwaith risg ac asesu effeithiolrwydd y system gyffredinol a'r risgiau a'r mesurau lliniaru a nodwyd.
- Gwneud penderfyniadau fel y'i dirprwywyd i'r pwyllgor gan y Bwrdd yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.
- Meini prawf cymhwyso ar gyfer penodi Is-gadeirydd y pwyllgor.
- Eglurhad ynghylch presenoldeb y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn y pwyllgor.
- Gwybodaeth, diweddariadau ac esboniadau ar gynnydd a sicrwydd i'w darparu gan swyddogion.
- Rôl ymgynghorol a chymorth i bwyllgor y cyfarwyddwr strategol arweiniol.
- Eglurhad ynghylch presenoldeb y Gwasanaeth Atal Twyll.

- Trefniadau ar gyfer rhoi cyngor i'r pwyllgor a chymryd cofnodion os gofynnir i swyddogion dynnu'n ôl.
- Rôl y pwyllgor wrth gwblhau'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer Llais.
- Egluro'r dull o wneud iawn.
- Egluro geiriad y llythyr cynrychiolaeth.
- Rôl y pwyllgor o ran cwblhau'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.
- Rôl y Pwyllgor wrth gwblhau'r cynllun archwilio.
- Rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd archwilwyr a chynlluniau
- Llinell adrodd i Gadeirydd y Bwrdd gan Gadeirydd y pwyllgor.

Mae'r newidiadau i'r cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth newydd yn sylweddol i adlewyrchu'r rôl ehangach o ran materion gweithlu eang, materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn amlygu'r gofyniad i'r pwyllgor gyfarfod yn amlach. Mae'r cylch gorchwyl diwygiedig, fodd bynnag, yn cynnwys holl gyfrifoldebau'r cyn bwyllgor.

Bydd cyfleoedd hefyd ar gyfer croesgyfeirio a sicrwydd rhwng pwyllgorau, yn enwedig o ran y rhaglen o waith archwilio mewnol a gwaith Archwilio Cymru, a fydd yn adrodd yn bennaf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ond yn ymdrin â meysydd pwnc sy'n ymwneud â rôl y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Ar yr adegau hynny disgwylir y bydd y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn craffu'n fanwl ar y meysydd pwnc hynny ac adlewyrchir hyn yn ei raglen waith.

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo sefydlu Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth a chymeradwyo ei gylch gorchwyl a chymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.